**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwastadeddau Gwynllŵg

Hydref 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8597 / 8032
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.Cyfrifoncyhoeddus@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwastadeddau Gwynllŵg

Hydref 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011.

### Pwerau

Nodir pwerau'r Pwyllgor yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru a nodir swyddogaethau penodol y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 18 (ar gael yn **www.cynulliadcymru.org**). Yn benodol, caiff y Pwyllgor ystyried adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ac ar yr economi, a pha mor effeithlon ac effeithiol y caiff adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

Mae gan y Pwyllgor bwerau statudol penodol hefyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ynghylch penodi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gyllideb ac archwilwyr y swydd honno.

### Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Darren Millar (Cadeirydd)**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Clwyd



**Mohammad Asghar (Oscar)**
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



**Jocelyn Davies**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Sandy Mewies**
Llafur Cymru
Delyn



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Jenny Rathbone**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



**Aled Roberts**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru

## Cynnwys


**Argymhellion y Pwyllgor** ..... **5**

**Rhagair y Cadeirydd** ..... **8**

**Cyflwyniad** ..... **9**

Cefndir ..... 9

Beth yw bwrdd draenio? ..... 11

**1. Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg** ..... **12**

Diffyg dogfennau strategol allweddol ..... 12

Cofrestr buddiannau ..... 20

Presenoldeb Aelodau a Maint a Chyfansoddiad y Bwrdd Draenio ..... 21

**2. Gweithredoedd cyn-Glerc a Pheiriannydd Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg** ..... **27**

Cyfraniad y cyn-Glerc at drafodaethau ynghylch trefniadau diswyddiad gwirfoddol gwell ..... 27

Ymweliadau arolygu a gynhaliwyd gan y Bwrdd Draenio ..... 30

Hyfforddiant ar gyfer Aelodau'r Bwrdd ..... 31

**3. Y fethodoleg a fabwysiadwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth archwilio cyfrifon y Bwrdd Draenio** ..... **34**

**4. Dyfodol Byrddau Draenio yng Nghymru** ..... **37**

**Tystion** ..... **40**

**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ..... **41**

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru (ac un i Swyddfa Archwilio Cymru) wedi'u rhestru isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth sy'n cyd-fynd â'r argymhellion a'r casgliadau:

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau clir ar atebolrwydd Byrddau Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru. (Tudalen 19)

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn pennu fframwaith clir ar gyfer cydweithio rhwng Byrddau Draenio Mewnol, a sefydliadau eraill sy'n atebol i Lywodraeth Cymru gan gynnwys awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru, mewn perthynas â rheoli'r perygl o lifogydd. Dylai'r fframwaith hwn gynnwys manylion am rolau a chyfrifoldebau pob sefydliad. (Tudalen 19)

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu trefniadau llywodraethu Byrddau Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru a bod system o fonitro trefniadau llywodraethu, gan gynnwys prosesau caffael a rheoli ariannol, yn cael ei chyflwyno er mwyn sicrhau eu bod yn dryloyw ac yn cyd-fynd â'r arfer gorau mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus a bod dogfennau a chynlluniau priodol ar waith. (Tudalen 19)

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Byrddau Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru a chyrff cyhoeddus bach eraill i sicrhau bod trefniadau atebolrwydd clir ar waith gyfer eu gweithgareddau cyhoeddus, gan gynnwys cynnal gwefannau. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailgyhoeddi canllawiau ar Lywodraethu, gan dynnu sylw at y problemau a gafwyd ym Mwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg er mwyn dangos yr hyn all fynd o'i le. (Tudalen 21)

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas yr Awdurdodau Draenio a chyrff priodol eraill i adolygu Byrddau Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru o ran eu maint,

eu cyfansoddiad a'r ffordd y maent yn gweithio, yn ogystal â Byrddau cyrff cyhoeddus bach eraill. (Tudalen 26)

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Byrddau Draenio Mewnol yn ystyried yr ymrwymiadau eraill sydd gan eu Helodau (yn enwedig Aelodau a Benodir gan Awdurdodau Lleol) pan fyddant yn paratoi agendâu ac yn trefnu cyfarfodydd er mwyn sicrhau gwell presenoldeb. (Tudalen 26)

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell, pan eir ati i ddatblygu systemau ar gyfer monitro trefniadau llywodraethu Byrddau Draenio a chyrff cyhoeddus bach eraill, y dylid ystyried systemau ar gyfer monitro perfformiad Aelodau Penodedig, yn enwedig y rhai o awdurdodau lleol. (Tudalen 26)

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell y dylid ystyried gwella'r prosesau cyfathrebu rhwng Aelodau a Benodir i Fyrddau a'r awdurdodau lleol a gynrychiolir ganddynt. Dylai hynny gynnwys canllawiau ar gyfer Aelodau Penodedig ynglŷn â throsglwyddo pryderon am drefniadau llywodraethu i awdurdod uwch a system adrodd i'w gwneud yn bosibl craffu ar fanylion gweithgareddau'r Bwrdd. (Tudalen 26)

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â chyrff cyhoeddus i sicrhau bod taliadau cydnabyddiaeth staff uwch yn gwbl dryloyw a bod y drefn o ystyried cynigion ar gyfer codi cyflog uwch-reolwyr yn cyd-fynd â chanllawiau Swyddfa Archwilio Cymru ar lywodraethu da. (Tudalen 30)

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r enghraifft hon i ddangos yr angen i gyrff cyhoeddus gofio pa mor bwysig ydyw i gyfiawnhau gwariant cyhoeddus mewn ffordd glir, gan sicrhau bod achosion busnes clir a chanlyniadau mesuradwy yn sail i benderfyniadau ar ddefnyddio arian cyhoeddus. (Tudalen 31)

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â Cyfoeth Naturiol Cymru, yn cydweithio'n agos â Byrddau Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod rhaglen gynefino a hyfforddi gadarn ac effeithiol ar waith i aelodau newydd, a bod y rhaglen honno'n cael ei monitro, a bod yr holl aelodau presennol yn cyflawni cynlluniau rheoli perfformiad rheolaidd ac yn cael eu hannog i adolygu eu hanghenion hyfforddiant. (Tudalen 33)

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes angen adolygu'r hyfforddiant a ddarperir i Aelodau'r Bwrdd ar gyrff cyhoeddus bach yng Nghymru, gan gynnwys cyrff fel Cynghorau Cymunedol. (Tudalen 33)

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Swyddfa Archwilio Cymru yn mynd gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gyda chanlyniadau'r adolygiad o'i methodoleg archwilio a'i chynigion ar sut y mae'n bwriadu gwneud gwelliannau yn y dyfodol. (Tudalen 36)

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod trefniadau archwilio Byrddau Draenio Mewnol Gwy Isaf a Phowysland yn cyd-fynd â'r rhai sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg. (Tudalen 36)

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn gwneud datganiad ar y posibilrwydd o drosglwyddo swyddogaethau'r Byrddau Draenio Mewnol presennol i Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gynted â phosibl. (Tudalen 38)

## Rhagair y Cadeirydd

Mae adroddiad yr Archwilydd Penodedig ar yr Archwiliad o Gyfrifon Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg ar gyfer 2010-2011 yn sôn am chwalu cydberthnasau, anghydfodau rhwng aelodau o staff ac anghytuno mewnol.

Nid oedd gofynion atebolrwydd y Bwrdd yn glir ac ni chafodd ei fonitro'n effeithiol wrth ddatblygu a chyflwyno cynllun strategol ar gyfer rheoli'r perygl o lifogydd yng Ngwastadeddau Gwent. Credwn y gallai hynny fod wedi peryglu bywydau ac eiddo miloedd o bobl. Gwnaethom nodi bod y Bwrdd wedi cymryd camau i fynd i'r afael â llawer o'r materion a nodwyd yn adroddiad yr Archwilydd Penodedig. Yn hynny o beth, nid y Bwrdd presennol oedd prif gynulleidfa ein hymchwiliad.

Fodd bynnag, nid oeddem wedi ein hargyhoeddi bod y materion a gododd ym Mwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg yn unigryw, o reidrwydd, i'r sefydliad hwnnw. Yn ein barn ni, dylai sefydliadau cyhoeddus eraill ledled Cymru ystyried y gwersi y gellir eu dysgu o'r hyn a ddigwyddodd yn y Bwrdd, er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir o'r angen am drefniadau llywodraethu da, atebolrwydd clir a mesurau diogelu effeithiol wrth reoli arian cyhoeddus, a phwysigrwydd y ffactorau hynny.

Er ein bod yn ddiolchgar i'r Archwilydd Penodedig am benderfynu cyhoeddi'r adroddiad hwn er budd y cyhoedd, roedd y ffaith bod lle i wella ar y fethodoleg a fabwysiadwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth archwilio'r Bwrdd Draenio yn peri pryder inni. Rhaid mynd i'r afael â hyn ar unwaith er mwyn sicrhau y gall y sector cyhoeddus deimlo'n gwbl hyderus wrth fanteisio ar arbenigedd y Swyddfa Archwilio.

# Cyflwyniad

## Cefndir

1. Cyhoeddwyd adroddiad yr Archwilydd Penodedig ar Fwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg ar 8 Hydref 2012. Cafodd ei gyhoeddi er budd y cyhoedd o dan Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

2. Nododd yr Archwilydd Penodedig iddo gyhoeddi'r adroddiad er mwyn:

> "[...] tynnu sylw'r cyhoedd at fethiant yn nhrefniadau llywodraethu Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg ynghyd â diffygion yn ei systemau rheoli a rheolaeth fewnol. O ganlyniad i'r methiannau hyn mae'r Bwrdd Draenio, yn fy marn i, wedi gweithredu'n anghyfreithlon ar adegau."[1]

3. Daeth yr adroddiad i'r casgliad:

- bod trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Draenio wedi bod yn annigonol ac yn aneffeithiol;
- bod rhai aelodau a swyddogion wedi ymddwyn mewn ffordd a oedd yn debygol o danseilio hyder y cyhoedd yn y Bwrdd Draenio;
- nad oedd y Bwrdd Draenio wedi cynnal systemau rheoli ariannol na rheolaeth ariannol da ar lefel gorfforaethol; a
- bod y Bwrdd Draenio wedi methu â dangos iddo sicrhau gwerth am arian a gweithredu'n gyfreithlon mewn rhai meysydd allweddol.[2]

4. Fodd bynnag, dywedodd yr Archwilydd Penodedig wrthym fod y Bwrdd presennol eisoes wedi ymateb i'r materion a nodwyd yn yr adroddiad drwy greu cynllun gwella:

> "Ym mis Medi 2011, cafodd rhai o'r materion sy'n codi yn yr archwiliad presennol eu cyfleu i Reolwr Cyffredinol Interim y

[1] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Tudalen 3
[2] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Tudalen 4

Bwrdd Draenio (ym mis Mawrth 2012 penodwyd y Rheolwr Cyffredinol Interim yn Glerc a Rheolwr Cyffredinol, a chyfeirir ato yn yr adroddiad hwn fel y Rheolwr Cyffredinol). Rwy'n falch o nodi bod y Bwrdd wedi rhoi rhaglen gwella sefydliadol ar waith. Mae'r gwaith ar y rhaglen gwella yn mynd rhagddo."[3]

5. Nid yw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fel arfer yn clywed tystiolaeth am adroddiadau a gyhoeddir er budd y cyhoedd ar drefniadau llywodraethu cyrff lleol. Yn hytrach, mae ein hymchwiliadau wedi'u seilio fel arfer ar adroddiadau a luniwyd yn unol â phwerau gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, roeddem o'r farn bod goblygiadau'r adroddiad hwn yn effeithio'n glir ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill ledled Cymru, ac nid dim ond ar y Bwrdd Draenio ei hun.

6. Gwnaethom gasglu tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyn-Glerc a Phrif Beiriannydd Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg, Rheolwr Cyffredinol presennol y Bwrdd Draenio Mewnol, Cymdeithas yr Awdurdodau Draenio, Swyddfa Archwilio Cymru, y Comisiwn Archwilio ac un o gyn-aelodau'r Bwrdd Draenio Mewnol. Roeddem o'r farn y byddai'r amrywiaeth hon o dystion yn rhoi safbwyntiau inni ar y canlynol:

- y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i roi sicrwydd i'w hun bod fframweithiau cymeradwy ar waith ar gyfer gwneud penderfyniadau gan Fyrddau Draenio yng Nghymru;
- rôl Llywodraeth Cymru o ran gweithio gyda Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg i gyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen;
- dyfodol Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru;
- rôl gweision sifil a pham na godwyd pryderon ynghynt;
- presenoldeb awdurdodau lleol ar fyrddau a chyrff cyhoeddus; a
- methodoleg Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer archwilio cyrff cyhoeddus bach, yn enwedig ei dull o archwilio cyfrifon Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg ar gyfer 2010-11.

[3] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Para 8

**Beth yw bwrdd draenio?**

7. Cyrff statudol annibynnol yw Byrddau Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n bennaf o dan Ddeddf Draenio Tir 1991. Maent yn gyfrifol am ddraenio tir mewn ardaloedd yng Nghymru a Lloegr (a elwir yn rhanbarthau yn aml) lle y ceir anghenion penodol o ran draenio.

8. Mae tri Bwrdd Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, sef:

- Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg, sydd yn gyfan gwbl yng Nghymru;
- Bwrdd Draenio Mewnol Gwy Isaf, sydd yn bennaf yng Nghymru (ac yn rhannol yn Lloegr); a
- Bwrdd Draenio Mewnol Powysland, sydd yn bennaf yng Nghymru (ac yn rhannol yn Lloegr).

9. Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg (y Bwrdd Draenio) sy'n gyfrifol am reoli'r system ddraenio ar Wastadeddau Gwent o ddydd i ddydd. Ardal o dir rhwng Cas-gwent a Chaerdydd yw Gwastadeddau Gwent; i'r de o draffordd yr M4 wrth ymyl Aber Afon Hafren. Mae'n ardal lle y byddai tir amaethyddol, tir masnachol a thir preswyl gwerthfawr yn fwy agored i'r perygl o lifogydd o bryd i'w gilydd pe na bai system ddraenio briodol ar waith.

10. Ariennir gwaith y Bwrdd Draenio o'r ffynhonellau canlynol:

- ardollau a godir ar awdurdodau lleol Sir Fynwy, Casnewydd a Chaerdydd (sef 72% o arian cyllid y Bwrdd Draenio ar hyn o bryd);
- gwaith draenio preifat a gyflawnir ar gais ar ran perchenogion tir a sefydliadau eraill (18%);
- mathau amrywiol eraill o incwm (8%); ac
- ardrethi sy'n daladwy gan berchenogion tir sydd ag eiddo ar Wastadeddau Gwent (2%).

# 1. Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg

### Diffyg dogfennau strategol allweddol

11. Mae adroddiad yr Archwilydd Penodedig yn nodi nad oedd gan y Bwrdd Draenio nifer o ddogfennau strategol allweddol yn eu lle, gan gynnwys:

- cynllun strategol yn cynnwys amcanion corfforaethol/strategol a mesurau perfformiad;
- cynllun(iau) gweithredol â chysylltiad clir â'r amcanion corfforaethol/strategol;
- cyllideb sefydliadol (cyfalaf a refeniw) cyn 2010-11;
- rhaglen waith gyffredinol ar gyfer y Bwrdd Draenio;
- polisi gwaith preifat sy'n gysylltiedig â'r rhaglen waith gytûn gyffredinol;
- cynllun gweithlu.[4]

12. Mae'r adroddiad yn nodi nad oedd y Bwrdd yn rhoi arweiniad strategol. Roedd cofnodion cyfarfodydd yn aml yn awgrymu nad oedd y Bwrdd yn rhoi digon o sylw i'r gwaith o bennu diben cyffredinol, amcan strategol a blaenoriaethau'r Bwrdd Draenio. Yn hytrach, roedd y Bwrdd wedi canolbwyntio'n ormodol ar fanylion gwaith y sefydliad o ddydd i ddydd.

13. Gwnaethom ofyn i dystion ar bob cam o'r ymchwiliad am y diffyg dogfennau strategol penodol yn y Bwrdd Draenio. Pan ofynnwyd iddo am ddiffyg cynllun strategol, cynllun gweithredol a rhaglen waith y Bwrdd Draenio, dywedodd y cyn-Glerc a Phrif Beiriannydd:

> "I did not have extensive documents in place, but there is a lot of history behind it."[5]

14. Roedd y cyn-Glerc a Phrif Beiriannydd o'r farn y bu'r Bwrdd Draenio yn llwyddiannus, ond roedd yn derbyn bod gan y sefydliad ei wendidau:

---

[4] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Para 22

[5] Cofnod Trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 579

> "Capacity is an issue. Certainly, the legislation that the board had to comply with, not only in terms of audit, was highly disproportionate to its size as a small body. The biggest issue with the board was that, because its turnover exceeded £1 million, it fell into the next raft of criteria, which would be incumbent on a large statutory body, such as a county council."[6]

15. Gwnaethom nodi nifer o ddogfennau a chofnodion allweddol nad oeddent wedi'u cadw'n briodol. Er enghraifft, nid oedd gan 'Bwyllgor Sefydliad' y Bwrdd Draenio gofnodion priodol o'i drafodion cyn 2011. Yn benodol, ni chadwyd cofnodion ffurfiol o gyfarfodydd y Pwyllgor Sefydliad cyn 2011. Cawsom wybod gan yr Archwilydd Penodedig mai'r unig gofnodion a gadwyd cyn 2010 oedd nodiadau byr mewn llawysgrifen o'r cyfarfodydd. Er bod y nodiadau hyn yn cofnodi cynigion y pwyllgor, nid oeddent yn rhoi cofnod o ystyriaethau'r pwyllgor na'r rhesymau dros y penderfyniadau a wnaed.[7]

16. Hoffem nodi ein siom nad oedd Rheolau Sefydlog diwygiedig y Bwrdd ar gael ar wefan y Bwrdd yn ystod ein hymchwiliad.

17. O ran rheolaeth gyllidebol, nododd adroddiad yr Archwilydd Penodedig:

> "Mae rheolaeth gyllidebol yn agwedd sylfaenol ar systemau rheoli ariannol da i bob sefydliad. Pan nad yw rheolaeth gyllidebol yn gryf, mae'n gwneud y sefydliad yn agored i risg ariannol, gorwario a gall beryglu gallu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion. Yn fy marn i, nid oedd gan y Bwrdd Draenio drefniadau rheolaeth gyllidebol digonol ar waith o ran y blynyddoedd ariannol cyn 2011-12."[8]

18. Pan ofynnwyd iddo ynghylch digonolrwydd cofnodion y Pwyllgor Sefydliad, cydnabu'r cyn-Glerc a Pheiriannydd fod archwiliadau blaenorol a gynhaliwyd gan Gyngor Dinas Casnewydd wedi codi pryderon ynghylch y diffyg dogfennau llywodraethu. Dywedodd :

---

[6] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 587
[7] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Para 42
[8] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Para 164

> “The board took that point on board and we got what documents we could from the Association of Drainage Authorities, and those documents were in place… The technicality that had arisen, which nobody was ever aware of, was the fact that they did not have Ministerial approval. Having said that, those documents were there. They were taken to the board in good light, the board subscribed to those documents in good light, and they were there. The audit office (Wales Audit Office) had copies of them. If there was an issue—and, certainly, I can accept that—why did somebody not tell us?”[9]

19. Gwnaethom glywed bod dogfennau allweddol eraill heb gael cymeradwyaeth weinidogol, er enghraifft y broses o roi Rheolau Sefydlog diwygiedig ar waith. Nododd adroddiad yr Archwilydd Penodedig:

> "Er mwyn gweithredu’n effeithiol, mae angen i fyrddau draenio mewnol fabwysiadu a chael cymeradwyaeth weinidogol ar gyfer cynllun o reolau. Byddwn yn disgwyl i’r rheolau hyn gyfateb i reolau sefydlog y Bwrdd Draenio."[10]

20. Yn ôl adroddiad yr Archwilydd Penodedig:

> "Yn ôl cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywodraethu/Sefydliad y Bwrdd ar 30 Mehefin 2008 dywedodd y cyn-Glerc a Pheiriannydd wrth y pwyllgor ‘the Regulations and Standing Orders for the Board date back to 1943. There is urgent need for these to be updated in line with best practice...’ Felly, ym mis Mehefin 2008, nid oedd y Bwrdd wedi mabwysiadu na chael cymeradwyaeth ar gyfer rheolau gweithdrefnau yn unol â gofynion deddfwriaethol, a hynny er gwaethaf y ffaith, yn 2005, i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) gyhoeddi Rheolau Sefydlog enghreifftiol a oedd ar gael i’w mabwysiadu a’u cymeradwyo gan fyrddau draenio mewnol."[11]

21. Pan ofynnwyd iddo ynglŷn â defnydd y Bwrdd Draenio o reolau sefydlognad ydynt yn berthnasol mwyach, dywedodd y cyn-Glerc a

---

[9] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 590-591
[10] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Para 26
[11] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Para 27

Phrif Beiriannydd fod y Bwrdd wedi rhoi dogfennau llywodraethu a ddarparwyd gan Gymdeithas yr Awdurdodau Draenio ar waith, yn dilyn argymhelliad gan Gyngor Dinas Casnewydd, sef yr archwilwyr penodedig.[12] Fodd bynnag, gwnaethom glywed na sicrhawyd cymeradwyaeth weinidogol ar gyfer y broses o roi'r Rheolau Sefydlog hyn ar waith.[13]

22. Pan ofynnwyd iddo sut yr eir ati i fonitro'r broses o roi Rheolau Sefydlog ar waith mewn Byrddau Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n bennaf yng Nghymru ac yn rhannol yn Lloegr, dywedodd y Comisiwn Archwilio wrthym:

> "It would not have been for the Audit Commission to provide advice. That is not a role that we have in relation to IDBs. The responsibilities of the auditors of those boards relate to the preparation of the annual return, and they would have reviewed the annual return and looked at the assertions made in the governance statement supporting the annual return."[14]

23. O ran y diffyg dogfennau strategol allweddol, gan gynnwys y defnydd o Reolau Sefydlog nad ydynt yn berthnasol mwyach, eglurodd Cyfarwyddwr Cyffredinol y gyfarwyddiaeth Dyfodol Cynaliadwy wrthym fod y canlynol yn wir, o dan Ddeddf Draenio Tir 1991:

> "[…] establishing those rules and the framework within which they operate is not a mandatory requirement. So, the answer to your question is that, while the internal drainage board, in this case, will have had plenty of guidance as to the sort of rules, documentation and standing orders that it should produce, if it chose not to, or if it chose to continue to operate under what were, in this case, pretty ancient rules, dating back to the 1940s, then that was a matter for it and not something in which we (the Welsh Government) could intervene."[15]

24. Nododd hefyd y byddai Llywodraeth Cymru wedi dibynnu'n helaeth ar Asiantaeth yr Amgylchedd i fonitro'r Bwrdd Draenio i sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol.

---

[12] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 591
[13] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 591-592
[14] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 11 Mehefin 2013 - Para 44
[15] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 12

25. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, sef corff sydd newydd ei sefydlu, wedi cymryd cyfrifoldeb am holl ddyletswyddau Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru. Pan ofynnom i Brif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru a oedd gan y corff newydd unrhyw gyfrifoldebau am ddwyn sefydliadau fel Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg i gyfrif, atebodd fel a ganlyn:

> "We have no formal role to play in the governance of this organisation, but we deal with its operational issues."[16]

26. O ran cyfrifoldebau Asiantaeth yr Amgylchedd, cawsom wybod bod gan y corff gynllun strategol i reoli'r perygl o lifogydd yn unol â strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol. Cawsom wybod y canlynol hefyd:

> "In the national strategy, I believe that there was a requirement that all flood operating authorities, which would include the drainage board and local authorities, had plans in place to explain how they were going to manage flood risk. In terms of policing those documents, the Environment Agency did not have a role. We had no legislation that permitted us to regulate in that regard. So, that is something that we were not monitoring."[17]

27. Yn amlwg, dylai'r Bwrdd Draenio fod wedi sicrhau bod ganddo gynllun strategol manwl ar waith a dogfennau llywodraethu wedi'u diweddaru er mwyn bodloni ei ofynion statudol.

28. Credwn hefyd y dylai system gadarn fod wedi'i rhoi ar waith ar gyfer monitro perfformiad a threfniadau llywodraethu - ar gyfer y Bwrdd a chyrff cyhoeddus bach eraill ledled Cymru.

29. Gwnaethom ofyn i Gyfarwyddwr Cyffredinol y gyfarwyddiaeth Dyfodol Cynaliadwy a oedd unrhyw ddiffygion yn y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg. Dywedodd y byddai Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â Swyddfa Archwilio Cymru i gefnogi'r Bwrdd Draenio i roi ei gynllun gweithredu ar waith. Aeth ymlaen i ddweud:

> "when we found out about this issue via a whistleblowing event, we would have relied firmly on the governance

[16] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 176
[17] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 180

> procedures that were in place and local authority representation on the boards to manage it successfully. We would have relied on the annual reporting, accounting and audit processes that were undertaken by the Wales Audit Office."[18]

30. Dywedodd cyn-Glerc a Pheiriannydd y Bwrdd Draenio fod y berthynas hirdymor rhwng y Bwrdd a Llywodraeth Cymru yn gyfeillgar, yn ffrwythlon ac yn broffesiynol.[19] Yn ei farn ef, roeddent yn trin ei gilydd fel a ganlyn:

> "with mutual respect and understanding. There was never any issue with anybody at the Assembly Government. The board worked very closely with it. It attended many meetings with it."[20]

31. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddo pa mor aml y câi adroddiadau eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru, dywedodd y cyn-Glerc a Pheiriannydd: "There were no regular scheduled meetings, as in, 'Give us an update every four months on what you are doing'." [21]

32. Nododd hefyd, pan oedd pobl yn tynnu ei sylw at broblemau yn 2010/11, iddo ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i fynegi ei bryderon a gofyn am gyfarfod â'r swyddogion perthnasol. Fodd bynnag, disgrifiodd ymateb Llywodraeth Cymru fel a ganlyn: "...it ignored every request for advice and a meeting made by me, and maybe those made by the chairman as well."[22]

33. Nododd adroddiad yr Archwilydd Penodedig fod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod am y pryderon ynghylch y ffordd y câi Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg ei weinyddu ym mis Chwefror 2011. Mae'r adroddiad yn nodi bod y ffaith nad oedd gan y Bwrdd fframwaith gwneud penderfyniadau cymeradwy yn sail i'r diffygion o ran trefniadau llywodraethu a rheoli ariannol. O ganlyniad, cafodd arian cyhoeddus ei wario mewn ffordd amhriodol, ac roedd diffyg atebolrwydd am hynny.[23]

---

[18] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 25
[19] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 711
[20] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 713
[21] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 717
[22] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 729-735
[23] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Para 18

34. Yn ei hymateb i adroddiad yr Archwilydd Penodedig, dywedodd Llywodraeth Cymru fod ei swyddogion yn gweithio gyda Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg i wneud y gwellianau y mae angen eu gwneud. Dywedodd Cyfarwyddwr Cyffredinol y gyfarwyddiaeth Dyfodol Cynaliadwy fod Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â'r ddau Fwrdd Draenio arall yng Nghymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd i ofyn am sicrwydd bod ganddynt fframweithiau gwneud penderfyniadau priodol ar waith ar gyfer eu byrddau draenio a'u rhanbarthau. Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n ystyried cynnal adolygiad ehangach o drefniadau llywodraethu pob Bwrdd Draenio Mewnol sy'n gweithredu yng Nghymru pe na bai'n cael sicrwydd o hynny.

35. Cawsom wybod mai Gweinidogion Cymru, yn y pen draw, sy'n gyfrifol am Fyrddau Draenio sy'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru. Nododd Cyfarwyddwr y gyfarwyddiaeth Dyfodol Cynaliadwy:

> "In terms of where the buck stops with regard to the future existence, if you like, of this particular drainage board and its legislative framework—in other words, how it is established and how it runs in future—lies with my Minister and with the advice that my colleagues and I will give him with regard to accountability arrangements that will need to be set up for the future operation of this important function."[24]

36. Pan ofynnwyd iddo i bwy yr oedd y Bwrdd Draenio yn atebol, dywedodd y cyn-Glerc a Pheiriannydd:

> "As far as I could see, it would originally have been DEFRA, and after that, it would be, indirectly, Environment Agency Wales—or Natural Resources Wales, as you would call it now. Ultimately, as flood-risk management is a devolved matter."[25]

37. Dywedodd hefyd ei fod yn teimlo mai Asiantaeth yr Amgylchedd a oedd yn gyfrifol am safon y gwaith a'r swyddogaethau yr oeddent yn eu cyflawni, ond rhoddodd wybod inni hefyd nad oedd Asiantaeth yr Amgylchedd wedi gofyn am gael gweld cynlluniau a baratowyd gan y Bwrdd Draenio.

[24] Cofnod y Trafodion – y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 156
[25] Cofnod y Trafodion – y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – 16 Mai 2013 – Para 595

38. Nid oeddem wedi ein hargyhoeddi bod y Bwrdd Draenio yn deall yn llwyr i bwy yr oedd yn atebol, ac roeddem yn pryderu efallai bod yr un peth yn wir o ran Byrddau Draenio eraill sy'n gweithredu yng Nghymru. Yn ein barn ni, roedd methiant y Bwrdd Draenio i sicrhau cymeradwyaeth weinidogol ar gyfer ei ddogfennau strategol yn arwydd o'r ffaith nad oedd angen unrhyw fath o gymeradwyaeth ar y Bwrdd am y camau a gymerwyd ganddo y rhan fwyaf o'r amser. Yn wir, yn eironig ddigon, mae'n ymddangos mai'r unig adeg y bu'n rhaid i'r Bwrdd gael cymeradwyaeth weinidogol oedd wrth geisio gwella a diweddaru ei ddogfennau, yn hytrach na chadw pethau fel ag y buont ers 1943.

39. O ystyried bod rheoli'r perygl o lifogydd yn fater sydd wedi'i ddatganoli, ymddengys yn glir y dylai'r cyfrifoldeb am Fyrddau Draenio Mewnol fod yn fater i Lywodraeth Cymru.

40. Fodd bynnag, mae'n glir o ymatebion y tystion bod Llywodraeth Cymru wedi methu ag egluro'r gofynion atebolrwydd i'r Bwrdd Draenio Mewnol a'r sefydliadau hynny sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau clir ar atebolrwydd Byrddau Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru.**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn pennu fframwaith clir ar gyfer cydweithio rhwng Byrddau Draenio Mewnol, a sefydliadau eraill sy'n atebol i Lywodraeth Cymru gan gynnwys awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru, mewn perthynas â rheoli'r perygl o lifogydd. Dylai'r fframwaith hwn gynnwys manylion am rolau a chyfrifoldebau pob sefydliad.**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu trefniadau llywodraethu Byrddau Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru a bod system o fonitro trefniadau llywodraethu, gan gynnwys prosesau caffael a rheoli ariannol, yn cael ei chyflwyno er mwyn sicrhau eu bod yn dryloyw ac yn cyd-fynd â'r arfer gorau mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus a bod dogfennau a chynlluniau priodol ar waith.**

41. Mae'r Bwrdd Draenio wedi diweddaru ei Reolau Sefydlog bellach, ac wedi rhoi copi ohonynt inni. Fodd bynnag, gwnaethom hefyd nodi yn ein cyfarfod ar 16 Mai 2013 bod y Rheolau Sefydlog nad oedd yn berthnasol mwyach (a oedd yn seiliedig ar Ddeddf Draenio Tir 1930) ar gael o hyd ar wefan y Bwrdd.[26]

42. Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr Cyffredinol presennol y Bwrdd Draenio Mewnol wrthym fod gwefan y Bwrdd yn cael ei chynnal gan gontractwr a gyflogir gan Gymdeithas yr Awdurdodau Draenio, a fyddai'n gyfrifol am gyhoeddi deunydd ar gyfer Byrddau Draenio ledled Cymru a Lloegr.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Byrddau Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru a chyrff cyhoeddus bach eraill i sicrhau bod trefniadau atebolrwydd clir ar waith gyfer eu gweithgareddau cyhoeddus, gan gynnwys cynnal gwefannau.**

### Cofrestr buddiannau

43. Gwnaethom nodi bod disgwyl i aelodau'r bwrdd lenwi ffurflen i gofrestru eu buddiannau ar ôl iddynt gael eu hethol neu eu penodi, gan gynnwys o ran eiddo a chontractau, ac unrhyw fuddiannau ariannol a/neu mewn busnes ac aelodaeth o sefydliadau eraill. Roedd disgwyl hefyd i aelodau lenwi ffurflenni wedi'u diweddaru pe bai eu buddiannau'n newid. Ymddengys fod y gofyniad i ddatgelu'r wybodaeth hon wedi'i gyflwyno yn 2008.

44. Fodd bynnag, mae adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r ffeil a gedwir gan y Bwrdd Draenio yn awgrymu nad oedd pob aelod yn llenwi'r ffurflenni hyn, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth bod swyddogion yn gwneud unrhyw waith dilynol i sicrhau y câi'r ffurflenni eu cyflwyno.[27]

45. Pan ofynnwyd iddo ynglŷn ag effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Draenio o ran cadw cofnodion, dywedodd Cyfarwyddwr y gyfarwyddiaeth Dyfodol Cynaliadwy:

---

[26] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 462-467
[27] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 - Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Para 63

> "One thing that I would say is that this is part of the pretty rich landscape of a spectacular failure in governance in this organisation. I am pretty sure that, if I were to run the Sustainable Futures directorate-general in this way, certainly my internal auditors would have something to say about it and would provide me with pretty damning reports about the way in which I was managing the organisation. As far as I am aware, that did not happen here, although the internal drainage board had internal auditors, which were in Monmouthshire County Council."[28]

46. O ran y ffurflenni ar gyfer cofnodi buddiannau aelodau, dywedodd:

> "[…] there was no requirement for such forms to be submitted, and I am not aware that any were. That would again have been a matter for the board itself, and for the chair of the board to satisfy himself, as it was a 'him', that people were declaring… conflict of interest et cetera as they should."[29]

47. Rydym yn disgwyl i bob corff cyhoeddus yng Nghymru gael trefniadau cadarn ac effeithiol ar waith ar gyfer rheoli cofnodion, gan gynnwys cofnodi datganiadau o fuddiant, fel un o egwyddorion craidd ei waith, a dylai pob corff gymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod ei gofnodion yn gywir ac yn cael eu diweddaru'n barhaus. Gwnaethom nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau arfer da ar Lywodraethu (wedi'u darparu gan Swyddfa Archwilio Cymru ac yn cynnwys saith egwyddor bywyd cyhoeddus Nolan) i bob corff cyhoeddus yng Nghymru.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailgyhoeddi canllawiau ar Lywodraethu, gan dynnu sylw at y problemau a gafwyd ym Mwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg er mwyn dangos yr hyn all fynd o'i le.**

### Presenoldeb Aelodau a Maint a Chyfansoddiad y Bwrdd Draenio

48. Mae adroddiad yr Archwilydd Penodedig yn nodi:

---

[28] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 103
[29] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 103-104

> "Caiff gweithrediadau'r Bwrdd Draenio eu goruchwylio gan Fwrdd. Roedd y Bwrdd, tan etholiadau mis Mai 2012, yn cynnwys 37 o aelodau. Cafodd 18 o'r aelodau eu hethol o blith talwyr ardrethi a chafodd 19 eu penodi i'r Bwrdd gan yr awdurdodau lleol sy'n talu ardollau."[30]

49. Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi cyfeirio at:

- Aelodau'r Bwrdd a ethlowyd o blith talwyr ardrethi fel 'Aelodau Etholedig'; ac
- Aelodau'r Bwrdd a benodwyd gan Awdurdodau Lleol fel 'Aelodau Penodedig'.

50. Yn unol â'r Ddeddf Draenio Tir (2001), roedd angen i'r Bwrdd Draenio sicrhau bod o leiaf un yn fwy o Aelodau Penodedig (hynny yw, y rhai a benodwyd i'r Bwrdd gan awdurdodau lleol) nag o Aelodau Etholedig. Gwnaed hynny er mwyn adlewyrchu lefelau'r arian a ddarparwyd i'r Bwrdd Draenio gan awdurdodau lleol.

51. Er bod cyfansoddiad y bwrdd wedi adlewyrchu'r gofyniad hwn yn dechnegol yn y gorffennol, cawsom wybod gan yr Archwilydd Penodedig nad oedd yr holl swyddi ar y Bwrdd ar gyfer Aelodau Penodedig wedi'u llenwi, sy'n golygu bod y Bwrdd yn cynnwys mwyafrif o Aelodau Etholedig.

52. At hynny, cawsom wybod nad oedd llawer o'r Aelodau Penodedig yn mynd i gyfarfodydd y Bwrdd na'i bwyllgorau. Roedd y ffaith bod llawer o Aelodau Penodedig yn methu â mynd i gyfarfodydd yn cyfrannu at yr argraff bod y Bwrdd Draenio yn cael ei reoli gan yr Aelodau Etholedig a bod yr Aelodau Penodedig yn cael eu hallgáu.[31]

53. Pan ofynnwyd iddo ynghylch presenoldeb Aelodau Penodedig yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau, dywedodd y cyn-Glerc a Pheiriannydd:

> "if you look at the minutes carefully, you will see that there are numerous references to concern at the lack of attendance by councillors and officers at IDB meetings."[32]

---

[30] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Para 11
[31] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Para 33
[32] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 751

54. Pan ofynnwyd iddo a oedd yn teimlo y dylai Aelodau Penodedig fod wedi gweithredu'n gynt i fynd i'r afael â'r broblem ynghylch y Rheolau Sefydlog nad ydynt yn berthnasol mwyach a'r diffyg system effeithiol ar gyfer rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau, dywedodd Cyfarwyddwr y gyfarwyddiaeth Dyfodol Cynaliadwy:

> "It is firmly the responsibility of the board to deal with those conflicts of interest. I have to say that I would have expected the appointed members of the board to have taken a much more robust line about that sort of thing before then."[33]

55. O ran absenoldeb Aelodau Penodedig o gyfarfodydd rheolaidd, dywedodd Cyfarwyddwr Cyffredinol y gyfarwyddiaeth Dyfodol Cynaliadwy wrthym:

> "It is clearly not acceptable. I have described the relationship as one of, at best, benign neglect in that the appointed members of the board were not always being appointed timeously and, even where they were appointed, they were not always, as you said, turning up to meetings. That effectively left the management of the organisation in the hands of elected members and officials in the organisation, which is clearly not acceptable."[34]

56. Fodd bynnag, dywedodd un o gyn-Aelodau Penodedig Bwrdd Draenio Mewnol y Gwastadeddau wrthym:

> "We tried to take control of the drainage board in the election, but, unfortunately, as you know, councillors have full diaries—there are clashes with all sorts of things, there is work with constituents and so on. So, we could not take control... We knew that things were wrong and, as councillors, we tried very hard. For three years, it had a tremendous impact on my life and other people's lives. However, I can tell you that we tried. It was not for want of trying."[35]

57. O ran y model a ddefnyddiwyd gan y Bwrdd Draenio i benodi aelodau, dywedodd yr Archwilydd Penodedig wrthym:

---

[33] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 78
[34] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 81
[35] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 18 Mehefin 2013 - Paragraffau 124 a 130

"Being a small body and, in the case of the drainage board, requiring a large number of members and, at the time, having particular quorum rules that made things quite difficult, was not particularly conducive to the delivery of good business."[36]

58. Rydym yn cytuno â chasgliad yr Archwilydd Penodedig bod canfyddiad bod gan Aelodau Etholedig ddylanwad amhriodol ar waith y Bwrdd, a hynny yn bennaf oherwydd y ffaith nad oedd llawer o'r Aelodau Penodedig yn mynd i gyfarfodydd y Bwrdd.[37]

59. Yn ein barn ni, roedd maint y Bwrdd yn un o'r rhesymau pam nad oedd rhai Aelodau Penodedig yn mynd i gyfarfodydd. Yn ôl adroddiad yr Archwilydd Penodedig:

"Roedd y Bwrdd, tan etholiadau mis Mai 2012, yn cynnwys 37 o aelodau. Cafodd 18 o'r aelodau eu hethol o blith talwyr ardrethi a chafodd 19 eu penodi i'r Bwrdd gan yr awdurdodau lleol sy'n talu ardollau. Dros y blynyddoedd diwethaf, nid yw pob un o'r 19 o seddi ar y Bwrdd ar gyfer aelodau a benodwyd gan awdurdodau lleol wedi'u llenwi gan olygu bod y mwyafrif o aelodau'r Bwrdd yn rhai etholedig. Yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2012, nid yw Cyngor Dinas Casnewydd wedi penodi cynrychiolwyr i'r Bwrdd eto."[38]

60. Cytunodd Cyfarwyddwr Cyffredinol y gyfarwyddiaeth Dyfodol Cynaliadwy fod maint y Bwrdd yn peri problem. Dywedodd :

"My experience of chairing boards is that anything much greater than 12 is almost impossible to manage, and often pretty unruly."[39]

61. Dywedodd wrthym hefyd:

"In this case, Newport, which put forward 15 individuals to the IDB, put forward a mixture of members and officers… It is a

---

[36] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 11 Mehefin 2013 - Para 193
[37] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Para 35
[38] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Para 11
[39] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 96

very large number of people to find—and a very large number of people to feel that they are obliged to go."[40]

62. Pwysleisiodd y cyn-Glerc a Pheiriannydd:

> "a whole raft of county councillors sat on the board, and it must be appreciated that county councillors were in the majority on the IDB. There were not only county councillors, but senior staff appointed by the county councils from the three authorities, as you know, to the board."[41]

63. Yn ein barn ni, roedd maint y Bwrdd yn cyfrannu at y risg na fyddai Aelodau Penodedig yn gallu mynd i gyfarfodydd, neu'r risg y byddent yn dewis peidio â mynd. Er enghraifft, efallai bod rhai Aelodau Penodedig yn tybio nad oedd angen iddynt fynd i gyfarfodydd y Bwrdd Draenio gan fod eu hawdurdod eisoes yn cael ei gynrychioli gan nifer o bobl eraill yn y cyfarfod.

64. Yn ogystal â hynny, byddai perygl bod gwrthdaro yn nyddiaduron Aelodau Penodedig rhwng cyfarfodydd y Bwrdd Draenio a chyfarfodydd awdurdod lleol neu faterion eraill. O dan y fath amgylchiadau, mae'n anochel y byddai rhai pobl yn rhoi blaenoriaeth i gyfarfodydd awdurdod lleol dros gyfarfodydd y Bwrdd Draenio.

65. Roedd Rheolwr Cyffredinol y Bwrdd yn cytuno:

> "Everyone agrees that the Board is too large, and the Board has committed to reducing its size but will have to wait for the decision of the Minister about the future of IDBs in Wales before it can start the lengthy process of reducing the number of elected members which would also provide the opportunity for a commensurate reduction in 'appointed members'. The consensus seems to be that a Board of between 12 and 20 would be appropriate."[42]

66. Credwn fod yr hyn a ddigwyddodd ym Mwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg yn adlewyrchu'r angen i adolygu maint Byrddau ar gyfer cyrff cyhoeddus bach yng Nghymru, er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn addas i'r diben. O ystyried bod

---

[40] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 96
[41] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 600
[42] Tystiolaeth Bellach a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gan Richard Penn, Rheolwr Cyffredinol, Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg, 9 Gorffennaf 2013.

amser Aelodau Penodedig yn brin, efallai y byddai'n werth ystyried opsiynau creadigol i'w gwneud yn haws i Fyrddau weithredu'n fwy effeithiol.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas yr Awdurdodau Draenio a chyrff priodol eraill i adolygu Byrddau Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru o ran eu maint, eu cyfansoddiad a'r ffordd y maent yn gweithio, yn ogystal â Byrddau cyrff cyhoeddus bach eraill.**

**Rydym yn argymell bod Byrddau Draenio Mewnol yn ystyried yr ymrwymiadau eraill sydd gan eu Helodau (yn enwedig Aelodau a Benodir gan Awdurdodau Lleol) pan fyddant yn paratoi agendâu ac yn trefnu cyfarfodydd er mwyn sicrhau gwell presenoldeb.**

**Rydym yn argymell, pan eir ati i ddatblygu systemau ar gyfer monitro trefniadau llywodraethu Byrddau Draenio a chyrff cyhoeddus bach eraill, y dylid ystyried systemau ar gyfer monitro perfformiad Aelodau Penodedig, yn enwedig y rhai o awdurdodau lleol.**

**Rydym yn argymell y dylid ystyried gwella'r prosesau cyfathrebu rhwng Aelodau a Benodir i Fyrddau a'r awdurdodau lleol a gynrychiolir ganddynt. Dylai hynny gynnwys canllawiau ar gyfer Aelodau Penodedig ynglŷn â throsglwyddo pryderon am drefniadau llywodraethu i awdurdod uwch a system adrodd i'w gwneud yn bosibl craffu ar fanylion gweithgareddau'r Bwrdd.**

# 2. Gweithredoedd cyn-Glerc a Pheiriannydd Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg

### Cyfraniad y cyn-Glerc at drafodaethau ynghylch trefniadau diswyddiad gwirfoddol gwell

67. Ym mis Ebrill 2011, lluniodd y cyn-Glerc a Pheiriannydd gynnig y dylid rhoi'r canlynol iddo: 'enhanced voluntary redundancy from the Board with the signing of the relevant compromise agreement with effect from the 30th June 2011.'[43]

68. Nododd y cynigion hefyd y byddai'r cyn-Glerc a Pheiriannydd yn barod i gael ei ailbenodi yn ymgynghorydd i'r Bwrdd Draenio. Er bod y papur yn ymwneud yn bennaf â swydd y cyn-Glerc a Pheiriannydd, roedd hefyd yn cyflwyno cynigion ehangach i ailstrwythuro'r Bwrdd, gan nodi swyddi a oedd yn 'ddiogel' a rhai eraill 'nad oeddent yn ddiogel'. Nid yw'r papur yn cynnig unrhyw resymeg dros ailstrwythuro. At hynny, nid yw'n rhoi unrhyw sail dros bennu pa swyddi a oedd yn ddiogel a pha rai nad oeddent yn ddiogel. Nododd yr Archwilydd Penodedig yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, er bod swydd gwraig y cyn-Glerc a Pheiriannydd yn 'ddiogel' yn ôl y papur, roedd swyddi dau aelod arall o staff yn 'anniogel', ac roedd ef a'i wraig mewn anghydfod cyflogaeth parhaus â'r ddau aelod o staff o dan sylw.[44]

69. Ar 31 Mai 2011, cafodd fersiwn o'r papur hwn ag ynddo rai diwygiadau ei drafod gan Bwyllgor Sefydliad y Bwrdd Draenio.[45] Mae adroddiad yr Archwilydd Penodedig yn nodi nad yw'n glir pam na chafodd yr aelodau gopi o'r papur cyn y cyfarfod.

70. Roedd cofnodion y cyfarfod yn nodi i'r cyn-Glerc a Pheiriannydd (a'i wraig) adael yr ystafell tra bo'r cynigion yn cael eu hystyried. Mae'r cofnodion yn nodi i'r Pwyllgor Sefydliad benderfynu ar y canlynol:

---

[43] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Para 75
[44] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Para 75
[45] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Para 82

"to recommend to the full Board to accept the restructuring proposals of the CEO's report and to pursue a course of restructuring for the Board."[46]

71. Cafodd y cynigion ailstrwythuro eu cynnwys ar agenda ar gyfer un o gyfarfodydd y Bwrdd ar 13 Mehefin 2011, fodd bynnag ni chafodd papur ar y cynigion hyn a baratowyd ar gyfer yr aelodau gan y cyn-Glerc a Pheiriannydd ei ddarparu cyn y cyfarfod, ac ni chafodd yr aelodau gopi o'r papur tan iddynt ddod i'r cyfarfod.[47]

72. Canfu ymchwiliad yr Archwilydd Penodedig nad oedd unrhyw gofnod o'r drafodaeth a gafwyd ynghylch cynigion ailstrwythuro'r cyn-Glerc a Pheiriannydd. Fodd bynnag, gwrthododd y Bwrdd gynigion y cyn-Glerc a Pheiriannydd er gwaethaf argymhelliad y Pwyllgor Sefydliad y dylid eu derbyn.[48]

73. Pan ofynnwyd iddo ynglŷn ag ymwybyddiaeth Llywodraeth Cymru o'r problemau llywodraethu yn y Bwrdd Draenio, dywedodd Cyfarwyddwr Cyffredinol y gyfarwyddiaeth Dyfodol Cynaliadwy na chafodd Llywodraeth Cymru wybod am y pryderon tan fis Chwefror 2011.[49]

74. O ran cymryd rhan mewn trafodaethau ynglŷn â'i godiad cyflog, dywedodd y cyn-Glerc a Pheiriannydd fod yr un faint o ystyriaeth wedi'i rhoi i'w adolygiad cyflog ef ag i unrhyw aelod arall o staff. Dywedodd: "My pay review by the board... was no different to any other member of salaried staff within the internal drainage board."[50]

75. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod, o edrych yn ôl, nad oedd yn briodol iddo fod yn rhan o'r trafodaethau ynglŷn â'i adolygiad cyflog, er bod aelodau'r Bwrdd Draenio yn derbyn ei gyfranogiad yn y trafodaethau fel rhan o'r weithdrefn arferol:

[46] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Para 83
[47] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Para 87
[48] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Para 88
[49] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 29
[50] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 613

> "There should have been an independent organisation overseeing any pay within the Internal Drainage Board, not only mine, but that of all the other salaried staff."[51]

76. Gwnaethom hefyd glywed, pan oedd cyfrifoldebau a chapasiti'r bwrdd ar gynnydd, y byddai uwch-reolwyr yn cysylltu â'r bwrdd er mwyn gofyn iddo ystyried graddfeydd eu swyddi yn y sefydliad. Pe bai'r Bwrdd yn cytuno ei bod hi'n hen bryd cynnal adolygiad, byddai'n gwneud yr hyn a ganlyn:

> "appoint a sub-committee or panel – for the want of a better word-that would hear the case. The panel would consist of the Chairman and the Vice-Chairman. It would also consist of one local authority Member… That was a balanced approach: one from the county councils, one from the landowners and the chairman and vice-chairman."[52]

77. Yn ôl adroddiad yr Archwilydd Penodedig:

> Ar 26 Tachwedd 2001, dim ond wyth mis ar ôl ei benodi'n Glerc a Pheiriannydd, cyflwynodd Mr Jackson-Johns gais i Bwyllgor Gwaith a Dibenion Cyffredinol y Bwrdd i ailraddio ei swydd. Mae'r cofnodion yn cyfeirio at 'very detailed report that [Mr Jackson-Johns] had prepared regarding proposals to review his grading to fairly reflect his position as Clerk and Engineer to the Board from 1st April 2001'. Er bod y cofnodion yn cyfeirio at yr adroddiad fel 'Appendix VI on the yellow sheets', nid yw'r Bwrdd wedi llwyddo i ddod o hyd i gopi o'r adroddiad hwn."[53]

78. Yn ôl adroddiad yr Archwilydd Penodedig:

> "Dylai cyrff cyhoeddus sefydlu trefniadau llywodraethu cadarn ac effeithiol sy'n nodi'r paramedrau y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddynt, ac sy'n helpu i lywio ac arwain ymddygiad aelodau o staff ac aelodau'r Bwrdd... Disgwyliaf i bob corff cyhoeddus roi'r canlynol ar waith...polisïau sy'n rhoi canllawiau i staff ac aelodau'r Bwrdd ar sut i ymdrin â buddiannau personol a/neu ariannol sy'n codi yn ystod eu gwaith, gan

[51] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 621
[52] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 772
[53] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Para 94

> gynnwys gofynion ar gyfer datgelu a chofnodi buddiannau a gwneud penderfyniadau."[54]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â chyrff cyhoeddus i sicrhau bod taliadau cydnabyddiaeth staff uwch yn gwbl dryloyw a bod y drefn o ystyried cynigion ar gyfer codi cyflog uwch-reolwyr yn cyd-fynd â chanllawiau Swyddfa Archwilio Cymru ar lywodraethu da.**

79. At hynny, fel rhan o'n gwaith yn y dyfodol, rydym yn bwriadu cynnal ein hymchwiliad ein hunain i gyflog uwch swyddogion.

### Ymweliadau arolygu a gynhaliwyd gan y Bwrdd Draenio

80. Canfu'r Archwilydd Penodedig nad oedd modd dod i gasgliad, oherwydd prosesau cadw cofnodion gwael a'r diffyg achos busnes, ynghylch a oedd yr ymweliadau arolygu â'r Iseldiroedd yn 2000, yr Eidal yn 2005 a Gogledd Iwerddon yn 2008 yn cynnig gwerth da am arian.[55] Canfu ei ymchwiliad fod dirprwyaeth y Bwrdd Draenio i'r Eidal yn 2005 yn cynnwys 37 o bobl ar gyfer ymweliad deuddydd â gwaith draenio, gwlyptiroedd a thaith o amgylch Fenis. Nododd yr adroddiad:

> "Roedd y parti o'r Bwrdd Draenio yn cynnwys 13 o aelodau a thri swyddog o'r Bwrdd a 21 o 'westeion'. Gŵyr neu wragedd neu rieni aelodau a swyddogion y Bwrdd oedd y 'gwesteion' yn bennaf."[56]

81. Pan ofynnwyd iddo a oedd yr ymweliadau hyn yn briodol, dywedodd y cyn-Glerc a Pheiriannydd:

> "The visits abroad were also duly minuted. Also, every time the board went on a visit abroad, it was cleared with the audit office. Its advice was, 'Keep full records and financial accounts of what happened'."[57]

82. Gwariodd y Bwrdd Draenio £12,223 ar yr ymweliad â'r Eidal. Fodd bynnag, gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd a swyddogion dalu £100 yr un tuag at yr ymweliad, gyda gwesteion yn talu £300 yr un. Roedd taliad y

---

[54] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Para 56-57
[55] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Para 183
[56] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Para 186
[57] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 776

gwesteion wedi'i gyfrifo i dalu'r gost lawn o fynd â hwy ar yr ymweliad. Cawsom wybod bod y Bwrdd Draenio wedi cael yr arian a oedd yn ddyledus gan aelodau'r Bwrdd a'u gwesteion. Y gost i'r Bwrdd Draenio ar ôl cyfraniadau'r aelodau a'u gwesteion oedd £4,333.

83. Daw adroddiad yr Archwilydd Penodedig i'r casgliad:

> "Defnyddiodd y Bwrdd Draenio arian trethdalwyr i ariannu ymweliadau 'arolygu' gan aelodau'r Bwrdd a swyddogion heb fod unrhyw achos busnes dros y fath ymweliadau nac unrhyw ffordd effeithiol o asesu'r buddiannau a gafwyd yn eu sgîl. Ni chredaf fod y gwariant hwn yn cynnig gwerth am arian, roedd y gwariant hwn yn anghyfreithlon."[58]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r enghraifft hon i ddangos yr angen i gyrff cyhoeddus gofio pa mor bwysig ydyw i gyfiawnhau gwariant cyhoeddus mewn ffordd glir, gan sicrhau bod achosion busnes clir a chanlyniadau mesuradwy yn sail i benderfyniadau ar ddefnyddio arian cyhoeddus.**

### Hyfforddiant ar gyfer Aelodau'r Bwrdd

84. Pan ofynnwyd iddo am yr hyfforddiant a oedd ar gael i bob Aelod o'r Bwrdd Draenio, dywedodd James Harris, un o gyn-aelodau'r Bwrdd:

> "There was no training. Although I had training as a county councillor, you must accept that the landowner farmers came from their daily work. There was no training for the farming community. I feel that it was just a case of, 'You have arrived'. There were no issues around health and safety, and there was no training."[59]

85. Dywedodd wrthym hefyd, ar ôl iddo gael ei benodi i'r Bwrdd, iddo gael ei allgáu gan staff a'i gadw ar hyd braich gan aelodau eraill o'r Bwrdd oherwydd ei ymdrechion i gyflwyno ethos o reolau, Rheolau Sefydlog a hyfforddiant yn y Bwrdd Draenio.

86. Fodd bynnag, dywedodd cyn-Glerc a Pheiriannydd y Bwrdd mai Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg oedd y Bwrdd Draenio Mewnol cyntaf yng Nghymru a Lloegr i anfon pob aelod

---

[58] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Tudalen 40
[59] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 18 Mehefin 2013 - Para 18

o'r Bwrdd ar gwrs a oedd yn canolbwyntio ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau aelodau, wedi'i gyflwyno gan JBA Consulting ym mis Ebrill 2008.[60]

87. Yn yr un modd, dywedodd Rheolwr Cyffredinol Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg:

> "All Board members are subject to an induction process and are made fully aware of their accountabilities and responsibilities as Board members rather than as representatives either of agricultural ratepayers or of the local authorities that appoint them to the Board. The governance documents that were provided to the committee included a '*Schedule of Matters Reserved for the Board*' as well as a document setting out clearly the roles of the Board, Board Members, the Chair and the General Manager. So far as appointed members specifically are concerned, the relevant Council Officer (usually the Head of Democratic Services) is provided with written guidance with guidance on the role of appointed members to assist with the selection of appropriate appointed members."[61]

88. Dywedodd yr Archwilydd Penodedig:

> "It is useful for any member, whether they be appointed from a local authority or elected directly, to have some training provided to them. I would expect appointed members from local authorities to have had access to general training through their local authority, but other members may not, and we see this as well on community councils."[62]

89. Rydym yn disgwyl i unrhyw Fwrdd sy'n cael arian cyhoeddus weithredu rhaglen o hyfforddiant effeithiol ar gyfer aelodau newydd a hyfforddiant parhaus ar gyfer aelodau presennol. Credwn fod canfyddiadau adroddiad yr Archwilydd Penodedig yn tynnu sylw at wendidau hanesyddol o ran agweddau at hyfforddiant ar gyfer aelodau o Fyrddau Draenio Mewnol ledled y DU. Mae'n werth nodi mai cwrs JBA Consulting ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau yn 2008 oedd y cyntaf

---

[60] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 751
[61] Tystiolaeth Bellach a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gan Richard Penn, Rheolwr Cyffredinol, Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg, 9 Gorffennaf 2013.
[62] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 11 Mehefin 2013 - Para 195

o'i fath, yn ôl y sôn, i aelodau o unrhyw un o Fyrddau Draenio Mewnol y DU ymgymryd ag ef. [63]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â Cyfoeth Naturiol Cymru, yn cydweithio'n agos â Byrddau Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod rhaglen gynefino a hyfforddi gadarn ac effeithiol ar waith i aelodau newydd, a bod y rhaglen honno'n cael ei monitro, a bod yr holl aelodau presennol yn cyflawni cynlluniau rheoli perfformiad rheolaidd ac yn cael eu hannog i adolygu eu hanghenion hyfforddiant.**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes angen adolygu'r hyfforddiant a ddarperir i Aelodau'r Bwrdd ar gyrff cyhoeddus bach yng Nghymru, gan gynnwys cyrff fel Cynghorau Cymunedol.**

[63] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 757

## 3. Y fethodoleg a fabwysiadwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth archwilio cyfrifon y Bwrdd Draenio

90. Yn ôl adroddiad yr Archwilydd Penodedig:

> "Ers 1 Ebrill 2005, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi penodi archwilwyr i gynnal yr archwiliad blynyddol o gyfrifon y Bwrdd Draenio. Nododd yr archwiliadau hyn rai pryderon a gwnaed argymhellion ar gyfer gwella, yn enwedig o ran materion rheoli ariannol a rheolaeth gyllidebol o fewn y Bwrdd Draenio. Mae'r archwiliad a arweiniodd at yr adroddiad hwn yn llawer mwy eang na fyddai yng nghyd-destun cynnal archwiliad blynyddol o'r datganiadau ariannol. Rwyf wedi felly ystyried materion na fyddai'r archwilydd yn eu hystyried fel rheol. Fodd bynnag, mae nifer y materion a nodwyd yn yr archwiliad presennol a graddau ac arwyddocâd rhai o'r materion hyn yn codi cwestiynau dilys am effeithiolrwydd archwiliadau blaenorol. Rwyf wrthi'n ystyried pa welliannau y mae angen eu gwneud i'n methodoleg ar gyfer archwilio cyrff cyhoeddus bach a hyfforddi staff er mwyn sicrhau bod materion archwilio allweddol yn cael eu nodi a'u hadrodd cyn gynted â phosibl."[64]

91. Yn ystod sesiwn friffio lafar ar gynnwys ei adroddiad, gwnaethom holi'r Archwilydd Penodedig pam nad oedd ei swyddfa wedi mynd ar drywydd pryderon ynghylch trefniadau llywodraethu'r Bwrdd ynghynt. Yn ateb i hynny, dywedodd:

> "In relation to the audit, the amount of work that we have done as part of this and the issues that we have looked at go far beyond what we would routinely do as part of our financial audit work. We would not normally expect to look at the standing orders and the way in which committees et cetera would be constituted as part of financial audit work. We would focus on the extent to which the accounts presented were a true view of the finances of the organisation. In doing this, we

[64] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Para 7

> have gone way beyond what we would normally do as part of our audit process."[65]

92. Gwnaethom ofyn i'r Archwilydd Penodedig pa faterion a gwmpaswyd yn flaenorol gan yr archwiliadau sicrwydd rhesymol a gynhaliwyd yn flaenorol gan Swyddfa  Archwilio Cymru. Dywedodd yr Archwilydd Penodedig:

> "standing orders and standing financial instructions being out of date or being updated but not being formally approved, the lack of a corporate strategy and business plan, policies and procedures for budgetary control, human resources and information technology not being in place, a lack of internal audit arrangements going back a few years ago, and the lack of a medium-term financial strategy. Those were the areas that fell within the scope of the audit in terms of reporting on those issues. What we failed to do is to follow those issues up sufficiently robustly, largely because it is a small body, and, if you are going to add more time to the audit, it is going to cost even more. That is no excuse, but that is some of the background."[66]

93. Dywedodd un o swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru wrthym, oherwydd mai dim ond un Bwrdd Draenio yr oedd Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am ei archwilio (mae'r ddau arall yn rhannol yn Lloegr ac yn ddarostyngedig i gyfundrefn archwilio Lloegr ar hyn o bryd), nid oeddent wedi gwerthfawrogi'r cymhlethdodau a oedd yn gysylltiedig â'r archwiliad yn hanesyddol. Aeth ymlaen i egluro:

> "There are peculiarities, if you like, in terms of the way that drainage boards are set up, the way that they set their rates, the membership of the board and in relation to needing ministerial approval for standing orders. Therefore, when we made certain recommendations, such as the need to implement standing orders, it is probably the case that we did not appreciate at the time that those standing orders required ministerial approval… One of the things that we have learned from this exercise is the need, when you have unique audited bodies, to get a better understanding of the nature of that

---

[65] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 5 Chwefror 2013 - Para 40
[66] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus -11 Mehefin 2013 - Para 79

organisation. That is the only way, ultimately, that you can improve the standard of the audit."[67]

94. Cawsom ein siomi bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi methu â mynd i'r afael â'r problemau ym Mwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg ynghynt. Fodd bynnag, nodwn fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cydnabod y methiannau hyn ac wedi ymrwymo i adolygu ei methodoleg archwilio er mwyn rhoi gwell sicrwydd y caiff materion archwilio allweddol eu hadrodd, ac yr eir i'r afael â hwy, cyn gynted â phosibl.

**Rydym yn argymell bod Swyddfa Archwilio Cymru yn mynd gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gyda chanlyniadau'r adolygiad o'i methodoleg archwilio a'i chynigion ar sut y mae'n bwriadu gwneud gwelliannau yn y dyfodol.**

95. At hynny, rydym o'r farn fod Swyddfa Archwilio Cymru, o ganlyniad i'w gwaith yn y maes hwn, wedi datblygu dealltwriaeth well o'r gofynion penodol sy'n gysylltiedig ag archwilio byrddau draenio. Yn wir, dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru wrthym ei fod o'r farn bod Swyddfa Archwilio Cymru bellach "mewn sefyllfa dda i ymgymryd â gwaith archwilio ar unrhyw fyrddau draenio eraill a byddem yn falch o wneud hynny".[68] O ganlyniad, gwnaethom argymell yn ein hadroddiad diweddar ar y Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol y dylai Llywodraeth Cymru:

> "fanteisio ar y cyfle hwn i sicrhau bod trefniadau archwilio Byrddau Draenio Mewnol Gwy Isaf a Phowysland yn cyd-fynd â'r rhai sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg."[69]

96. Er eglurder, rydym yn ailadrodd yr argymhelliad hwn yma.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod trefniadau archwilio Byrddau Draenio Mewnol Gwy Isaf a Phowysland yn cyd-fynd â'r rhai sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg.**

---

[67] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 11 Mehefin 2013 - Paragraffau 114 a 115
[68] Llythyr, Archwilydd Cyffredinol Cymru, 13 Mehefin 2013
[69] Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol

# 4. Dyfodol Byrddau Draenio yng Nghymru

97. Ar 22 Tachwedd 2012, gwnaeth Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru holi'r Athro Emyr Roberts, a oedd wedi'i benodi'n Brif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru ychydig cyn hynny, ynghylch trosglwyddo swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol i Cyfoeth Naturiol Cymru. Nododd fod hwn yn fater y dymunai Llywodraeth Cymru o bosibl ei drafod â Cyfoeth Naturiol Cymru, a bod Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn y dylid cynnal y drafodaeth honno rhywbryd eto.

98. Ar ôl i'r Archwilydd Penodedig gyhoeddi ei adroddiad, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ddatganiad ysgrifenedig ar 13 Tachwedd 2012. Nododd:

> "Mae arian cyhoeddus wedi cael ei wario'n amhriodol ac mae trefniadau gwael o ran cadw cofnodion wedi tanseilio atebolrwydd. Mae hyn yn ymddygiad annerbyniol ar ran unrhyw gorff gyhoeddus, ac er nad yw Llywodraeth Cymru yn rhoi unrhyw gyllid craidd neu barhaus i CWLIDB nac unrhyw fwrdd draenio mewnol yng Nghymru, mae defnyddio arian cyhoeddus yn briodol a bod yn atebol amdano yn rhywbeth sy'n bwysig dros ben i Lywodraeth Cymru. ...Dros yr haf, bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion i newid y ffordd y cyflawnir swyddogaethau'r Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru. Amlinellir y rhain yn ein papur Ardaloedd Draenio Mewnol a Byrddau Draenio Mewnol sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru: Ymgynghoriad. Datblygwyd yr ymgynghoriad i gefnogi gwaith ar sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru a rhaglen ehangach Cymru Fyw. Mae'n adeiladu ar adolygiadau blaenorol ar y Byrddau Draenio Mewnol yn 2005 a 2009 ac roedd yn cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Nid oedd yr ymgynghoriad â chysylltiad archwiliad SAC o CWLIDB, a oedd eisoes wedi'i ddechrau ar y pryd, ond roedd yn cynnwys ymrwymiad i ystyried canlyniad yr archwiliad. Rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion yn ddiweddarach yn

> yr hydref a byddwn yn cyhoeddi canlyniad yr ymgynghoriad yn y Flwyddyn Newydd."[70]

99. Dywedodd cyn-Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar 21 Chwefror 2013 ei fod yn gobeithio gwneud cyhoeddiad cyn gynted â phosibl ar drosglwyddo swyddogaethau'r Byrddau Draenio Mewnol presennol i Cyfoeth Naturiol Cymru. Dywedodd fod ei swyddogion yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus yng nghyd-destun yr adroddiadau archwilio, gan y byddai rhai o'r ymatebion wedi'u rhoi gan bobl nad oeddent yn ymwybodol o'r adroddiad hwnnw. Rydym wedi ein siomi, ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, nad yw'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd wedi gwneud datganiad i'r perwyl hwnnw eto. Rydym yn cydnabod y byddai'n werth cynnwys y cyfrifoldeb am Fyrddau Draenio Mewnol fel rhan o gwmpas Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Rydym yn argymell bod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn gwneud datganiad ar y posibilrwydd o drosglwyddo swyddogaethau'r Byrddau Draenio Mewnol presennol i Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gynted â phosibl.**

100. Roedd safbwyntiau'r rhai yr ymgynghorywd â hwy gan Lywodraeth Cymru ar ddyfodol Byrddau Draenio yn amrywio'n fawr. Cawsom wybod y byddai'n well gan y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i'r Byrddau Draenio Mewnol aros fel ag y maent, gan gyflwyno trefniadau llywodraethu gwell, ond nododd yr awdurdodau lleol y byddai'n well ganddynt gymryd rheolaeth dros y Byrddau Draenio.[71]

101. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddo a fyddai'n well gan Lywodraeth Cymru weld Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd cyfrifoldeb am y Byrddau, dywedodd Cyfarwyddwr Cyffredinol y gyfarwyddiaeth Dyfodol Cynaliadwy:

> "I do not want to put words in the Minister's mouth, because it will be his decision, not mine, as to what option is decided upon. However, we have established Natural Resources Wales to manage Wales's natural resources. Effectively, it is already the internal drainage board for 11 internal drainage districts in north Wales. It has established modern, successful governance

[70] Datganiad Ysgrifenedig - Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg. http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2012/caldicotwentloogedrainageboard/?skip=1&lang=cy
[71] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 57-71

arrangements very recently. So, it is fair to say that transferring responsibility to it must be seen as a front runner."[72]

102. Mae adroddiad yr Archwilydd Penodedig yn nodi bod Deddf Draenio Tir 1991 yn:

> "rhoi'r pŵer i fyrddau draenio mewnol bennu ardreth ddraenio ar ddeiliaid tir amaethyddol yn eu hardal a chodi ardollau penodol ar awdurdodau lleol. Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys fformiwla gymhleth y mae'n rhaid i fyrddau draenio ei defnyddio wrth bennu'r ardreth sy'n daladwy gan y tirfeddianwyr. Yn gryno, caiff yr ardreth ei chyfrifo drwy gymryd nifer yr hectarau o dir o fewn ffin y Bwrdd Draenio a chyfanswm ei rent blynyddol posibl. Rhydd hyn ffigur gwerth blynyddol a gaiff ei luosi ag ardreth a bennir bob blwyddyn gan y Bwrdd. Mae'r fformiwla ddeddfwriaethol yn ei gwneud yn ofynnol i'r swm ariannol i'w godi gan ardrethi ac ardollau gael ei bennu gan ddefnyddio'r un gymhareb rhwng gwerthoedd tir amaethyddol ac anamaethyddol yn y drefn honno."[73]

103. Yn hynny o beth, bydd angen ystyried goblygiadau pwerau'r Byrddau Draenio Mewnol i bennu ardollau yn ofalus, os trosglwyddir eu swyddogaethau i Cyfoeth Naturiol Cymru.

104. Yn ein barn ni, pa bynnag benderfyniad a wneir ar ddyfodol Byrddau Draenio, rhaid sicrhau y pennir gofynion clir o ran atebolrwydd, gan mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli'r perygl o lifogydd yng Nghymru yn y pen draw.

[72] Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 16 Mai 2013 - Para 72
[73] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg - Para 168

## Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn llawn yn:
www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1311

*16 Mai 2013*

| | |
|---|---|
| Gareth Jones, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Dyfodol Cynaliadwy | Llywodraeth Cymru |
| Jo Larner, Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Dros Dro | Llywodraeth Cymru |
| Emyr Roberts, Prif Weithredwr | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Tim England | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Richard Penn, Rheolwr Cyffredinol | Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg |
| Yr Athro Jean Venables | Cymdeithas yr Awdurdodau Draenio |
| Dean Jackson-Johns, Cyn-Glerc a Pheiriannydd | Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg |

*11 Mehefin 2013*

| | |
|---|---|
| Anthony Barrett, Archwilydd Penodedig Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Mike Usher, Cyfarwyddwr Technegol ar gyfer Archwilio Ariannol | Swyddfa Archwilio Cymru |
| David Rees, Rheolwr Llywodraethu | Swyddfa Archwilio Cymru |

*18 Mehefin 2013*

| | |
|---|---|
| James Harris, Cyn-Aelod Bwrdd | Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg |

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn: www.senedd.cynulliadcymru.org/ieIssueDetails.aspx?IId=5690&Opt=3&AIID=10315

| *Sefydliad* | *Cyfeirnod* |
|---|---|
| Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg | PAC(4) 14-13 – Papur 1 |
| Cymdeithas yr Awdurdodau Draenio | PAC(4) 14-13 – Papur 2 |
| Swyddfa Archwilio Cymru | PAC(4) 17-13 – Papur 1 |
| | |
| Swyddfa Archwilio Cymru | Gwybodaeth ychwanegol |
| Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg | Gwybodaeth ychwanegol |
| James Harris | Gwybodaeth ychwanegol |
| Richard Penn, Rheolwr Cyffredinol | Gwybodaeth ychwanegol |